

Deialog 1 – Mynediad – Fersiwn y De**Helen Morris – HM****Gareth Williams – GW**

HM: Gareth Williams dych chi? Helen Morris, rheolwraig y swyddfa dw i.

(Ysgwyd llaw)

GW: Ie, Gareth dw i. Dwi'n mynd i weithio i'r adran farchnata.

HM: Croeso i'r cwmni, Gareth.

GW: Diolch yn fawr.

(Y ddau'n cerdded i lawr coridor)

HM: Gawsoch chi siwrne dda i'r gwaith?

GW: Do, diolch.

HM: Dyma'r adran farchnata a dyma eich swyddfa chi. *(Agor y drws)*

GW: Swyddfa braf! Ardderchog!

Deialog 1 - Mynediad - Fersiwn y Gogledd**Helen Morris - HM****Gareth Williams - GW**

HM: Gareth Williams dach chi? Helen Morris, rheolwraig y swyddfa dw i.

(Ysgwyd llaw)

GW: Ie, Gareth dw i. Dwi'n mynd i weithio i'r adran farchnata.

HM: Croeso i'r cwmni, Gareth.

GW: Diolch yn fawr.

(Y ddau'n cerdded i lawr coridor)

HM: Wnaethoch chi gael siwrne dda i'r gwaith?

GW: Do, diolch.

HM: Dyma'r adran farchnata a dyma eich swyddfa chi. *(Agor y drws)*

GW: Swyddfa braf! Ardderchog!

Deialog 1 - Sylfaen - Fersiwn y De**Gareth Williams - GW****Hywel Jones - HJ**

GW: Gareth Williams dw i. Dw i'n gweithio yn yr adran farchnata. Croeso aton ni, Hywel.

HJ: Diolch yn fawr.

(Ysgwyd llaw)

GW: Ble ro't ti'n arfer gweithio, Hywel?

HJ: Yng Nghaerdydd. Ro'n i'n arfer gweithio i gwmni o'r enw Techneg.

(Y ddau'n cerdded i lawr coridor)

GW: O ble rwyd ti'n dod yn wreiddiol?

HJ: Dw i'n dod o Hwlfordd yn wreiddiol ond symudodd y teulu i Aberystwyth pan o'n i'n ifanc.

GW: Mae teulu gyda fi yn Aberystwyth. Rhaid i ni gael sgwrs amser coffi.

(Yn cyrraedd swyddfa agored gyda llawer o ddesgiau)

Dyma dy ddesg di. Gobeithio byddi di'n hapus gyda ni.

GW: Diolch yn fawr.

Deialog 1 - Sylfaen - Fersiwn y Gogledd

Gareth Williams - GW
Hywel Jones - HJ

GW: Gareth Williams dw i. Dwi'n gweithio yn yr adran farchnata. Croeso aton ni, Hywel.

HJ: Diolch yn fawr.

(Ysgwyd llaw)

GW: Lle oeddet ti'n arfer gweithio, Hywel?

HJ: Yng Nghaerdydd. Rôn i'n arfer gweithio i gwmni o'r enw Techneg.

(Y ddau'n cerdded i lawr coridor)

GW: O lle wyt ti'n dod yn wreiddiol?

HJ: Dw i'n dod o Wrecsam yn wreiddiol ond mi symudodd y teulu i Ddinbych pan ôn i'n ifanc.

GW: Mae gen i deulu yn Ninbych. Rhaid i ni gael sgwrs amser coffi.

(Yn cyrraedd swyddfa agored gyda llawer o ddesgiau)

Dyma dy ddesg di. Gobeithio byddi di'n hapus efo ni.

GW: Diolch yn fawr.

Deialog 2 - Mynediad - Fersiwn y De

Sefyllfa: Amser coffi; nifer o aelodau o staff yn cael paned.

DH: Dafydd Hughes

GW: Gareth Williams

DH: Sut mae pethau'n mynd?

GW: Da iawn, diolch.

DH: Wyt ti eisiau paned o goffi?

GW: Ydw, plîs.

DH: Wyt ti'n cymryd llaeth a siwgr?

GW: Llaeth, ond dim siwgr, diolch. Pwy ydy'r fenyw draw fan'na?

DH: Pwy, nawr?

GW: Y fenyw dal yna. Mae gwallt tywyll gyda hi, ac mae hi'n gwisgo blows las.

DH: Blows las a sgert goch?

GW: Ie, dyna ti. Pwy ydy hi?

DH: Nesta Griffiths. Hi ydy rheolwraig yr adran. Mae hi'n fenyw bwysig iawn!

Deialog 2 - Mynediad - Fersiwn y Gogledd

Sefyllfa: Amser coffi; nifer o aelodau o staff yn cael paned.

DH: Dafydd Hughes

GW: Gareth Williams

DH: Sut mae pethau'n mynd?

GW: Da iawn, diolch.

DH: Wyt ti isio paned o goffi?

GW: Oes, plis.

DH: Wyt ti'n cymryd llefrith a siwgr?

GW: Llefrith, ond dim siwgr, diolch. Pwy ydy'r ddynes draw fan acw?

DH: Pwy, rwan?

GW: Y ddynes dal yna. Mae gynni hi wallt tywyll, ac mae hi'n gwisgo blows las.

DH: Blows las a sgert goch?

GW: Ie, dyna ti. Pwy ydy hi?

DH: Nesta Griffiths. Hi ydy rheolwr yr adran. Mae hi'n ddynes bwysig iawn!

Deialog 2 - Sylfaen - Fersiwn y De

Sefyllfa - Amser coffi; nifer o aelodau o staff yn cael paned.

HJ: Hywel Jones

GW: Gareth Williams

GW: Wyt ti'n dechrau setlo gyda ni?

HJ: Ydw, diolch. Mae'r gwaith yn ddiddorol iawn.

GW: Hoffet ti gael paned o goffi?

HJ: Hoffwn, plis. Dw i'n cymryd llaeth ond dim siwgr.

(Gareth Williams yn gwneud y baned ac yn mynd â hi at Hywel Jones)

GW: Dyma ti. Ro't ti'n sôn am Aberystwyth. Wyt ti'n nabod fy nghefnder i, Carwyn Morgan?

HJ: Carwyn Morgan ... Ydw, dw i'n nabod Carwyn Morgan. Bachgen tal, roedd e'n chwarae i dîm pêl-droed Aberystwyth. Mae gwallt golau gyda fe.

GW: Oes, dyna ni.

HJ: Roedd e yn yr ysgol gyda fi!

GW: Wel, wel, mae'r byd yn fach, on'd ydy e?

Deialog 2 – Sylfaen – Fersiwn y Gogledd

Sefyllfa - Amser coffi; nifer o aelodau o staff yn cael paned.

HJ: Hywel Jones

GW: Gareth Williams

GW: Wyt ti'n dechrau setlo efo ni?

HJ: Ydw, diolch. Mae'r gwaith yn ddiddorol iawn.

GW: Faset ti'n hoffi cael paned o goffi?

HJ: Baswn, plis. Dw i'n cymryd llefrith ond dim siwgr.

(Gareth Williams yn gwneud y baned ac yn mynd â hi at Hywel Jones)

GW: Dyma ti. Roeddet ti'n sôn am Ddinbych. Wyt ti'n nabod fy nghefnder i, Carwyn Morgan?

HJ: Carwyn Morgan ... Ydw, dw i'n nabod Carwyn Morgan. Hogyn tal, roedd o'n chwarae i dîm pêl-droed Dinbych. Mae gynno fo wallt golau.

GW: Ia, dyna ni.

HJ: Roedd o yn yr ysgol efo fi!

GW: Wel, wel, mae'r byd yn fach, tydy?

Deialog 3 – Mynediad – Fersiwn y De

Sefyllfa: Ar y ffôn. Nesta Griffiths a Gareth Williams

GW: Gareth Williams

NG: Nesta Griffiths

NG: Helo, Gareth. Nesta Griffiths sy 'ma. Dych chi'n mwynhau'r gwaith?

GW: Ydw, diolch. Mae pawb yn garedig iawn.

NG: Dw i eisiau trefnu cyfarfod tîm. Pryd dych chi'n rhydd, Gareth?

GW: Dw i'n rhydd dydd Iau.

NG: Dw i'n rhydd dydd Iau ac mae Dafydd yn rhydd hefyd, dw i'n meddwl.

GW: Bore neu brynhawn dydd Iau? Does dim ots gyda fi.

NG: Beth am brynhawn dydd Iau? Am faint o'r gloch? ... Beth am hanner awr wedi dau?

GW: Iawn, prynhawn dydd Iau am hanner awr wedi dau.

NG: Diolch, Gareth. Hwyl nawr.

Deialog 3 – Mynediad – Fersiwn y Gogledd

Sefyllfa: Ar y ffôn. Nesta Griffiths a Gareth Williams

GW: Gareth Williams

NG: Nesta Griffiths

NG: Helo, Gareth. Nesta Griffiths sy 'ma. Sut dach chi'n mwynhau'r gwaith?

GW: Yn dda iawn, diolch. Mae pawb yn garedig iawn.

NG: Dw i isio trefnu cyfarfod tîm. Pryd dach chi'n rhydd, Gareth?

GW: Dw i'n rhydd dydd Iau.

NG: Dw i'n rhydd dydd Iau ac mae Dafydd yn rhydd hefyd, dw i'n meddwl.

GW: Bore neu brynhawn dydd Iau? Does dim ots gen i.

NG: Beth am brynhawn dydd Iau? Am faint o'r gloch? Beth am hanner awr wedi dau o'r gloch?

GW: Iawn, prynhawn dydd Iau am ddau o'r gloch.

NG: Diolch, Gareth. Hwyl rwan.

Deialog 3 – Sylfaen – Fersiwn y De

Sefyllfa: Ar y ffôn. Helen Morris a Hywel Jones

HM: Helen Morris

HJ: Hywel Jones

HM: Helo, Hywel. Helen Morris sy 'ma. Fi ydy rheolwraig y swyddfa. Sut mae'r gwaith yn mynd?

HJ: Yn dda iawn, diolch. Mae pawb yn garedig iawn.

HM: Dw i'n meddwl bod hi'n bryd cael cyfarfod tîm. Pryd dych chi'n rhydd wythnos nesa, Gareth?

HJ: Mae cyfarfodydd gyda fi bob dydd wythnos nesa, ond dw i'n meddwl mod i'n rhydd bore dydd Mawrth.

HM: Dw i'n rhydd dydd Mawrth a dywedodd Gareth fod e'n rhydd hefyd. Beth am hanner awr wedi naw dydd Mawrth?

HJ: Iawn. Ble bydd y cyfarfod?

HM: Yn fy swyddfa i.

HJ: Iawn.

HM: Gwela i chi bryd hynny. Hwyl nawr.

GW: Hwyl.

Deialog 3 – Sylfaen – Fersiwn y Gogledd

Sefyllfa: Ar y ffôn. Helen Morris a Hywel Jones

HM: Helen Morris

HJ: Hywel Jones

HM: Helo, Hywel. Helen Morris sy 'ma. Fi ydy rheolwr y swyddfa. Sut mae'r gwaith yn mynd?

HJ: Yn dda iawn, diolch. Mae pawb yn garedig iawn.

HM: Dw i'n meddwl bod hi'n bryd cael cyfarfod tîm. Pryd dach chi'n rhydd wythnos nesa, Gareth?

HJ: Mae gen i gyfarfodydd bob dydd wythnos nesaf, ond dw i'n meddwl mod i'n rhydd bore dydd Mawrth.

HM: Dw i'n rhydd dydd Mawrth ac mi ddwedodd* Gareth fod o'n rhydd hefyd. Beth am hanner awr wedi naw dydd Mawrth?

HJ: Iawn. Lle fydd y cyfarfod?

HM: Yn fy swyddfa i.

HJ: Iawn.

HM: Mi wela i chi bryd hynny. Hwyl rwan.

GW: Hwyl.

***yr actor i ddweud "mi ddudodd"**

Deialog 4 - Mynediad - Fersiwn y De

Sefyllfa - Ffreutur - amser cinio

GW: Gareth Williams

DH: Dafydd Hughes

DH: Dw i'n mynd i Lundain fory. Mae cyfarfod gyda fi yn y brif swyddfa. Ond dw i ddim eisiau mynd.

GW: Pam?

DH: Dw i ddim yn teimlo'n dda.

GW: Beth sy'n bod?

DH: Mae pen tost ofnadwy gyda fi.

GW: Oes rhaid i ti fynd fory?

DH: Oes, does dim dewis gyda fi.

GW: Druan â ti.

Deialog 4 – Mynediad – Fersiwn y Gogledd***Sefyllfa – Ffreutur – amser cinio*****GW: Gareth Williams****DH: Dafydd Hughes**

DH: Dw i'n mynd i Lundain fory. Mae gen i gyfarfod yn y brif swyddfa. Ond dw i ddim isio mynd.

GW: Pam?

DH: Dw i ddim yn teimlo'n dda.

GW: Beth sy'n bod?

DH: Mae gen i gur pen ofnadwy.

GW: Oes rhaid i ti fynd fory?

DH: Oes, *does gen i ddim dewis.

GW: Bechod.

*(Dylai'r actor ddweud *Sgen i ddim dewis* ond bod y sgript yn dweud *Does gen i ddim dewis*)

Deialog 4 - Sylfaen - Fersiwn y De*Sefyllfa - Ffreutur - amser cinio*

GW: Gareth Williams

HJ: Hywel Jones

GW: Dw i ddim wedi gweld Dafydd Hughes heddiw. Ydy e mas o'r swyddfa?

HJ: Nac ydy. Mae e'n dost.

GW: Doedd e ddim yn teimlo'n dda echdoe.

HJ: Nac oedd. Ond roedd rhaid iddo fe fynd i gyfarfod yn Llundain ddoe.

GW: Beth sy'n bod arno fe?

HJ: Pen tost ofnadwy. Mae llawer o bobl bant o'r gwaith heddiw.

GW: Mae annwyd arna i hefyd, ond mae'n rhaid dod i'r gwaith.

HJ: Oes, oes. mae'n rhaid dod i'r gwaith.

Deialog 4 - Sylfaen - Fersiwn y Gogledd***Sefyllfa - Ffreutur - amser cinio*****GW: Gareth Williams****HJ: Hywel Jones**

GW: Dw i ddim wedi gweld Dafydd Hughes heddiw. Ydy o allan o'r swyddfa?

HJ: Nac ydy. Mae o'n sâl.

GW: Doedd o ddim yn teimlo'n dda echdoe.

HJ: Nac oedd. Ond roedd rhaid iddo fo fynd i gyfarfod yn Llundain ddoe.

GW: Beth sy'n bod arno fo?

HJ: Cur pen ofnadwy. Mae llawer o bobl adra o'r gwaith heddiw.

GW: Mae gen i annwyd hefyd, ond mae'n rhaid dod i'r gwaith.

HJ: Oes, oes. Mae'n rhaid dod i'r gwaith.

Deialog 5 – Mynediad – Fersiwn y De

Sefyllfa: *Dafydd Hughes a Gareth Williams yn swyddfa Gareth Williams*

DH: Dafydd Hughes

GW: Gareth Williams

GW: Wyt ti'n teimlo'n iawn nawr?

DH: Ydw, diolch.

GW: Sut aeth hi yn Llundain?

DH: Roedd y cyfarfod yn iawn, ond roedd y siwrne'n ofnadwy!
Roedd y traffig yn drwm ar y ffordd nôl.

GW: Pryd cyrhaeddaist ti adre?

DH: Tua hanner awr wedi naw. Dw i wedi blino'n lân.

GW: Mae cyfarfod arall gyda ni prynhawn 'ma. Yn swyddfa Nesta.

DH: Oes. Diolch am ddweud. Dw i'n edrych mlân!

Deialog 5 – Mynediad – Fersiwn y Gogledd

Sefyllfa: *Dafydd Hughes a Gareth Williams yn swyddfa Gareth Williams*

DH: Dafydd Hughes

GW: Gareth Williams

GW: Wyt ti'n teimlo'n iawn rwan?

DH: Ydw, diolch.

GW: Sut aeth hi yn Llundain?

DH: Roedd y cyfarfod yn iawn, ond roedd y siwrne'n ofnadwy!
Roedd y traffig yn drwm ar y ffordd yn ôl.

GW: Pryd wnest ti gyrraedd adre?

DH: Tua hanner awr wedi naw. Dw i wedi blino'n lân.

GW: Mae gynnon ni gyfarfod arall prynhawn 'ma. Yn swyddfa Nesta.

DH: Oes. Diolch am *ddweud. Dw i'n edrych ymlaen!

*yr actor i ddweud "ddeud"

Deialog 5 – Sylfaen – Fersiwn y De

Sefyllfa: Hywel Jones a Dafydd Hughes yn swyddfa Hywel Jones

DH: Dafydd Hughes

HJ: Hywel Jones

HJ: Wyt ti'n teimlo'n well?

DH: Ydw, diolch byth. Dw i wedi blino'n lân, ond roedd rhaid i mi ddod i'r gwaith heddiw.

HJ: Sut wnest ti fwynhau yn Llundain?

DH: Yn iawn. Mae Llundain yn iawn am ddiwrnod ond faswn i ddim yn hoffi byw yno.

HJ: Es i i'r coleg yn Llundain. Ond faswn i ddim yn gallu byw yno nawr.

DH: Ble baset ti'n hoffi byw?

HJ: Wel, tasai arian gyda fi, baswn i'n hoffi prynu ty yn Sbaen.

DH: Ty yn Sbaen? Ond sut baset ti'n dod i'r gwaith?

HJ: Sut baswn i'n dod i'r gwaith? Ond faswn i ddim, wrth gwrs!

Deialog 5 - Sylfaen - Fersiwn y Gogledd

Sefyllfa: Hywel Jones a Dafydd Hughes yn swyddfa Hywel Jones

DH: Dafydd Hughes

HJ: Hywel Jones

HJ: Wyt ti'n teimlo'n well?

DH: Ydw, diolch byth. Dw i wedi blino'n lân, ond roedd rhaid i mi ddod i'r gwaith heddiw.

HJ: Sut wnest ti fwynhau yn Llundain?

DH: Yn iawn. Mae Llundain yn iawn am ddiwrnod ond faswn i ddim yn hoffi byw yno.

HJ: Mi es i i'r coleg yn Llundain. Ond faswn i ddim yn medru byw yno rwan.

DH: Lle faset ti'n hoffi byw?

HJ: Wel, tasai gen i arian, mi faswn i'n hoffi prynu ty yn Sbaen.

DH: Ty yn Sbaen? Ond sut faset ti'n dod i'r gwaith?

HJ: Sut faswn i'n dod i'r gwaith? Ond faswn i ddim, wrth gwrs!

Deialog 6 - Mynediad - Fersiwn y De

Sefyllfa: *Diwedd amser cinio/paned - ffreutur*

HM: Helen Morris

GW: Gareth Williams

HM: Dych chi'n edrych mlân at y penwythnos?

GW: Ydw. Dw i'n mynd i ymlacio a gwneud dim.

HM: Beth dych chi'n wneud fel arfer?

GW: Dw i'n hoffi cerdded felly dw i'n mynd am dro yn y wlad bob penwythnos. Beth dych chi'n mynd i wneud?

HM: Bues i'n gwario llawer o arian yn siopa dillad dydd Sadwrn diwetha, felly dw i'n mynd i aros yn y ty fory.

GW: Mae'n gas gyda fi siopa dillad. Beth am ddydd Sul?

HM: Dw i ddim yn siwr eto. Rhaid i mi ffonio fy chwaer.

GW: Ydy hi'n byw yn agos?

HM: Ydy. Mae hi'n byw yn y stryd nesa.

GW: *(yn codi o'r ford)* Wel, pob hwyl, ta beth!

Deialog 6 – Mynediad – Fersiwn y Gogledd

Sefyllfa: *Diwedd amser cinio/paned - ffreutur*

HM: Helen Morris

GW: Gareth Williams

HM: Dach chi'n edrych ymlaen at y penwythnos?

GW: Ydw. Dw i'n mynd i ymlacio a gwneud dim.

HM: Beth dach chi'n wneud fel arfer?

GW: Dw i'n hoffi cerdded felly dw i'n mynd am dro yn y wlad bob penwythnos. Beth dach chi'n mynd i wneud?

HM: Mi wnes i wario llawer o bres yn siopa dillad dydd Sadwrn diwetha, felly dw i'n mynd i aros yn y ty fory.

GW: Mae'n gas gen i siopa dillad. Beth am ddydd Sul?

HM: Dw i ddim yn siwr eto. Rhaid i mi ffonio fy chwaer.

GW: Ydy hi'n byw'n agos?

HM: Ydy. Mae hi'n byw yn y stryd nesa.

GW: (*yn codi o'r ford*) Wel, pob hwyl, beth bynnag!

Deialog 6 - Sylfaen - Fersiwn y De

Sefyllfa: *Diwedd amser cinio/paned - ffreutur*

HJ: Hywel Jones
DH: Dafydd Hughes

HJ: Beth fyddi di'n wneud dros y penwythnos?

DH: Dw i'n mynd i weld y gêm rygbi yng Nghaerdydd.

HJ: Ro'n i'n arfer mynd i weld gemau rygbi, ond dyma'r tîm gwaetha ers blynyddoedd.

DH: Dw i'n cytuno ond mae fy mrawd wedi cael tocynnau, felly dw i'n teimlo bod rhaid i mi fynd. Beth amdanat ti?

HJ: Dw i'n mynd i chwarae sboncen gyda fy ffrind, ond dw i ddim mor ffit â fe, felly dw i'n colli bob tro.

DH: Dw i'n meddwl bod fy mrawd eisiau mynd am beint ar ôl i'r gêm orffen. Fydd dim arian ar ôl gyda fi erbyn diwedd y nos.

HJ: Felly byddi di nôl yn gweithio dydd Llun.

DH: Bydda. Bydd rhaid i mi!

Deialog 6 - Sylfaen - Fersiwn y Gogledd

Sefyllfa: *Diwedd amser cinio/paned - ffreutur*

HJ: Hywel Jones

DH: Dafydd Hughes

HJ: Beth fyddi di'n wneud dros y penwythnos?

DH: Dw i'n mynd i weld y gêm bêl-droed yn Wreccsam.

HJ: Rôn i'n arfer mynd i weld gemau pêl-droed, ond dyma'r tîm gwaetha ers blynyddoedd.

DH: Dw i'n cytuno ond mae fy mrawd wedi cael tocynnau, felly dw i'n teimlo bod rhaid i mi fynd. Beth amdanat ti?

HJ: Dw i'n mynd i chwarae sboncen efo fy ffrind, ond dw i ddim mor ffit â fo, felly dw i'n colli bob tro.

DH: Dw i'n meddwl bod fy mrawd isio mynd am beint ar ôl i'r gêm orffen. Fydd gen i ddim pres ar ôl erbyn diwedd y nos.

HJ: Felly mi fyddi di 'n ôl yn gweithio dydd Llun.

DH: Bydda. Mi fydd rhaid i mi!